# Castell y Mis:





## Castell Caernarfon

Llywelyn ein Llyw Olaf oedd Tywysog Cymru o 1267 ymlaen.Ond rhwng 1277 ac 1282 roedd brenin Lloegr, Edward 1af, yn dod yn fwy pwerus. Dechreuodd e godi cestyll o gwmpas Gwynedd yn:


- Aberystwyth
- Llanelwedd
- Y Fflint
- Rhuddlan

Ond cafodd Llywelyn ein Llyw Olaf ei ladd yn 1282. I ddathlu ei fuddugoliaeth yn 1282 cododd Edward 1af gestyll enfawr yng Ngwynedd:

- Harlech
- Caernarfon
- Conwy
- Biwmares



Plotiwch y cestyll a gododd Edward y 1af ar y map.








Defnyddiwch gyfrifiadur i ddarganfod y pellter rhwng bob castell. Gallwch ddefnyddio’r rhaglen yma.

# Castell y Mis:



## Castell Caernarfon

Darllenwch wybodaeth am gastell Caernarfon (sleid nesaf)



# Castell Caernarfon

## A wyddoch chi . . .

- Castell Caernarfon yw castell mwyaf Edward I yng Nghymru.
- Dyma balas brenhinol ei dywysogaeth newydd.



## Ffaith!

Mae'r stribedi o gerrig o liwiau gwahanol yn muriau Castell Caernarfon yn debyg i'r stribedi yn muriau dinas fawr y Rhufeiniaid yng Nghaer Cystennin (sef yr enw ar y waliau sydd yn Istanbul heddiw).



- Tŵr yr Eryr, gyda cherflun carreg o eryr ar ei ben, yw tŵr mwyaf trawiadol y castell. Mae muriau'r tŵr yn 5.4 metr o drwch.
- Mae wyth ochr i'r saith tŵr yn y castell.







Edward I



Edward II

- Yn 1284 cafodd mab Edward I ei eni yn y castell.
- Yn ôl y stori dywedodd Edward I wrth y Cymry ei fod yn rhoi tywysog newydd oedd ddim yn gallu siarad Saesneg iddyn nhw!
- Pan oedd y plentyn yn saith oed cafodd ei arwisgo yn Dywysog Cymru yn y castell.
- Mae cerflun ohono – Edward II – uwchben Porth y Brenin.



## Geirfa

**tywysogaeth:** gwlad y mae tywysog yn teyrnasu arni
**cerflun:** delw neu fodel mewn tri dimensiwn





# Cwis yr Wythnos: 17.06.2024

1. Enwch feiciwr enwog o Gymru

2. Pa gystadlaethau seiclo sydd yng ngemau Olympaidd Paris 2024?


3. Sawl medal aur/ arian/ efydd mae seiclwyr o Brydain wedi ennill dros yr holl flynyddoedd? (cyfanswm yr holl fedalau ym mhob cystadleuaeth)





Gwefan Ddefnyddiol

# Chwaraeon y Mis








BEICIO CYMRU
WELSH CYCLING

## Beicio

Darllenwch am hanes Elinor Barker, un o seiclwyr gorau Cymru trwy glicio yma. Dechreuodd Elinor Barker ei bywyd ym myd seiclo gyda Flyers Maedy, yn union fel Geraint Thomas. Edrychwch ar brint arbennig Orielodl o Geraint Thomas trwy glicio yma. Ewch ati i greu print eich hun i ddathlu llwyddiant Elinor Barker yn mynd beicio.














# Cwis yr Wythnos: 10.06.2024

1. Beth oedd y brif eitem ar raglen ddiweddaraf, ‘Newyddion Ni?’

2. Rhestrwch 3 rhaglen teledu Cymraeg sy’n dechrau gyda’r lythyren ‘C’.

3. Gwyliwch un o raglenni ‘Stwnsh.’ Ewch ati i roi blas o’r rhaglen i’ch ffrind.





Gwefan Ddefnyddiol

# Digwyddiad y Mis:




## Eisteddfod Yr Urdd

Ewch ati i wylio un o raglenni uchafbwyntiau Eisteddfod yr Urdd, 2024.

# Man aros y Mis:



## Bluestone

Yn swatio ymhlith y coed, yng nghanol byd natur mae parc gwyliau Bluestone, Sir Benfro. Dyma le arbennig lle y gallwch redeg, chwarae, gwledda a mwynhau rhyddid yr awyr agored gyda'r bobl hynny sy'n arbennig i chi- eich teulu.

Edrychwch ar yr holl bethau sydd i'w gwneud ym mharc Bluestone. Ewch ati i greu hysbyseb radio i werthu'r parc i wrandawyr Radio Cymru.

# Cwis yr Wythnos: 24.06.2022

1. Pryd cafodd canol Abertawe ei ddinistrio yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

2. Enwch un traeth lle y gallwch fynd i syrffio yn Sir Abertawe?

3. Pam mae Capel y Tabernacl, Treforys, yn arbennig?



